

ATODIAD 1 Tystiolaeth ategol ar gyfer
yr Ymgynghoriad ar Gyfraddau
Ffioedd a Thaliadau Trwyddedu
Amgylcheddol Awdurdodau Lleol

Cyflwyniad

Mae'r atodiad hwn yn darparu tystiolaeth i gefnogi'r ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar ddiwygiadau arfaethedig i ffioedd a thaliadau awdurdodau lleol am drwyddedu amgylcheddol o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 (EPR). Dylid ei ddarllen i gefnogi'r cynigion yn yr Ymgynghoriad ar Gyfraddau Ffioedd a Thaliadau Trwyddedu Amgylcheddol Awdurdodau Lleol

Cyfrifiadau cynnydd chwyddiant

Y fformiwla a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r cynnydd chwyddiant canrannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol yw:

Cyfanswm y Cynnydd (%) = (0.25* Datchwyddydd GDP%) + (0.75*cyfradd OBR%)

Tabl 1 Cyfrifiadau Cyfradd Llog

Blwyddyn Ariannol	Datchwyddydd GDP %	OBR%	Cyfanswm y cynnydd %
16/17	2.26	4.40	3.87
17/18	1.57	3.77	3.22
18/19	2.11	1.20	1.43
19/20	2.37	1.54	1.75
20/21	5.37	7.64	7.08
21/22	-0.58	4.73	3.41
22/23	7.05	4.20	4.91
23/24	5.87	8.27	7.67
24/25	4.07	4.29	4.24

Er mwyn cyfrifo'r cynnydd chwyddiant, mae cyfrifiadau'n dechrau o flwyddyn ariannol 2016/17 oherwydd dyna pryd y codwyd cyfraddau ddiwethaf. Mae'r cyfraddau wedi'u

cyfrifo hyd at flwyddyn ariannol 2024/25 gan mai dyna'r flwyddyn lawn olaf cyn i'r cynnydd arfaethedig gael ei roi ar waith.

Mae'r fformiwla i gyfrifo'r cynnydd canrannol terfynol yn defnyddio cyfanswm cyfansawdd Datchwyddydd GDP, ac OBR%.

Cyfrifwyd y Datchwyddydd GDP cyffredinol fel 34.15% ac mae'r gyfradd OBR gyffredinol wedi'i chyfrifo fel 47.67%. Mae'r gwerthoedd hyn wedi'u pennu trwy gyfuno'r newid canrannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol (FY) gan ddefnyddio fformiwla safonol. Mae'r fformiwla yn cymhwyso'r cynnydd canrannol blyneddol o 2016/17 i 2024/25 i gyfrifo cyfanswm y cynnydd:

$100 * (1 + (16/17FY\%)) * (1 + (17/18FY\%)) * (1 + (18/19FY\%)) * (1 + (19/20FY\%)) * (1 + (20/21FY\%)) * (1 + (21/22FY\%)) * (1 + (22/23FY\%)) * (1 + (23/24FY\%)) * (1 + (24/25FY\%)) - 100 = \text{Cyfanswm y Cynnydd \%}$

Yna cyfrifir y cynnydd terfynol trwy rannu 25% o'r Datchwyddydd GDP a 75% o'r gyfradd OBR a esboniwyd uchod i gyrraedd 44.29%.

Mae hyn yn golygu mai'r cyfrifiad terfynol ar gyfer y cynnydd chwyddiant i'r cyfraddau yw:

$(0.25 * 34.15\% \text{GDP}) + (0.75 * 47.67\% \text{OBR}) = 44.29\%$